**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-O4-0522
Ein cyf/Our ref HL/00378/14

William Powell AC

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

3 Mawrth 2014

Annwyl William

Diolch am eich llythyr diweddar ynghylch cais y Pwyllgor Deisebau i ymchwilio i anghysondeb ymddangosiadol o ran y cyfrifoldeb am ddatblygu polisïau ar gyfer rheoli asbestos mewn ysgolion yng Nghymru.

Fel y soniais yn fy llythyr dyddiedig 2 Ionawr, nid yw'r cyfrifoldeb am y materion hyn wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ond, yn hytrach, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol amdano. Mae cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i nodi yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddwch yn gweld yn Rhan 1 o'r Atodlen honno, o dan y pwnc "Health and health services" (Saesneg yn unig) bod eithriad i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Mae fy swyddogion wedi paratoi canllawiau ar reoli asbestos mewn ysgolion. Eu hamcan yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar aelodau staff ysgolion er mwyn iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol a bodloni gofynion deddfwriaethol a pholisi yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae Lloegr wedi mabwysiadu agwedd debyg.

Yn gywir

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*